# CYNGOR YR UNDEB SYNIADAU

WWW.UMABER.CO.UK

#NEWIDABER

14/03/2016

# SYNIADAU

Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer yr holl staff a chyflog sydd ddim yn gwahaniaethu ar sail oedran ar y campws. 3

Oes unrhyw un yn gwneud unrhyw beth o gwbl a pha mor dlawd ydyn ni? 5

*Os oes angen hew mewn fformat arall, cysylltwch â Dan Meehan ar undeb.democratiaeth@aber.ac.uk*

# CYFLOG BYW CENEDLAETHOL AR GYFER YR HOLL STAFF A CHYFLOG SYDD DDIM YN GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN AR Y CAMPWS.

## Y Sefyllfa:

1. Ar hyn o bryd, mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yn talu'r isafswm cyflog i'w staff sy'n fyfyrwyr, a chredaf fod Prifysgol Aberystwyth yn gwneud yr un fath â'r swyddi mae'n eu cynnig i fyfyrwyr. Mae angen newid hyn, gan fod myfyrwyr yn cael eu tanbrisio, ac mae unrhyw aelod staff sydd ddim yn fyfyriwr yn sicr yn cael ei danbrisio, gan fod rhaid iddynt gynnal eu hunain ar gyflog sy'n is na chyflog byw. Yn ogystal â hyn, gan fod myfyrwyr ar hyn o bryd yn derbyn yr isafswm cyflog, sy'n cynyddu ar sail oedran, golyga hyn y camwahanieithir yn erbyn myfyrwyr oherwydd eu bod yn ifanc, h.y. mae'n Undeb a'r Brifysgol yn camwahaniaethu ar sail oedran.
2. Golyga hyn fod myfyrwyr rhwng 18 a 20 oed sy'n gweithio yn derbyn: £5.30 yr awr, ond bod myfyrwyr sydd dros 21 oed yn cael £6.70 yr awr. Ynghyd â hyn, o Ebrill 2016 ymlaen, bydd pob gweithwyr dros 25 oed yn cael eu talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, sef £7.20 yr awr. Golyga hyn, o'r dyddiad hwn ymlaen, y gallai myfyrwyr ieuangach sy'n gwneud yr un gwaith yn union dderbyn £1.90 yr awr yn llai, dim ond ar sail eu hoedran!
3. Dolen i raddfeydd Isafswm Cyflog: www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

## Barn y Bobl:

1. Teimlaf y dylai myfyrwyr gael eu talu'n deg, ac nid ar sail eu hoedran. Credaf y dylai myfyrwyr dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol am unrhyw waith maen nhw'n ei wneud, boed hynny yn yr Undeb neu yn y Brifysgol, ac yn y pen draw, yn y dref hefyd.
2. Mae'n annheg fod myfyrwyr yn derbyn llai o gyflog na rhywun ychydig hŷn, wedi'r cyfan rhaid i fyfyrwyr fyw fel unrhyw un arall, felly dylent gael eu talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i sicrhau hyn. Bydd cael strwythur cyflogau sy'n gyffredin i bob myfyriwr sy'n gweithio ar y campws ac yn yr Undeb yn symleiddio gweithio yn y mannau hyn, gan sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal, fel maen nhw'n ei haeddu. Rhaid i lawer o fyfyrwyr weithio

mewn mwy nag un swydd, neu weithio nifer fawr o oriau oherwydd nad ydynt yn cael eu talu'n deg. Pe baent yn cael eu talu'n deg, gallent wedyn dreulio mwy o amser ar eu hastudiaethau a'u diddordebau personol.

3. Bydd hyn yn rhoi hwb ychwanegol i'r Undeb a'r Brifysgol, wrth fynd ati i gyflogi staff newydd maes o law, gan y bydd yn eu gwneud yn fannau mwy deniadol i fyfyrwyr weithio ynddynt. Ymhen amser, bydd hyn yn annog cyflogwyr yn y dref i gynyddu eu cyflogau i lefel y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae gan yr effaith raeadru yma'r gallu i ddylanwadu ar nifer fawr o fyfyrwyr mewn ffordd gadarnhaol dros y blynyddoedd nesaf; un enghraifft fyddai myfyrwyr yn cymryd benthyciad llai gan y byddant yn gallu ennill cyflog teg wrth astudio yn y Brifysgol. Byddai hyn hefyd i bob diben yn datrys y broblem gyfredol ynglŷn â chamwahaniaethu ar sail oedran, sy'n seiliedig ar dalu staff yn ôl eu hoed yn hytrach na pherfformiad neu fesur arall.
4. Nid yw hwn yn fater sydd ond yn perthyn i Staff sy'n Fyfyrwyr, ac o'r herwydd dylid ehangu'r polisi i gynnwys pob staff a gyflogir ar y campws. Os dylid talu myfyrwyr yn deg, yna i fod yn gyfiawn, dylid talu pob aelod staff yn deg, felly dylai pob staff dderbyn y Cyflog Byw Cenedlaethol.
5. Yn olaf, mae Aberystwyth ar ei hôl hi yn hyn o beth, ymhell ar ei hôl hi, o ystyried bod y rhan fwyaf o Undebau Myfyrwyr eraill yn talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Hefyd, mae nifer cynyddol o Undebau Myfyrwyr yn dod yn gyflogwyr Cyflog Byw'r DU, ac maent yn derbyn cryn ganmoliaeth am hynny, er enghraifft Undeb Myfyrwyr Middlesex, Undeb Myfyrwyr Manceinion, Undeb Myfyrwyr Kings College, Undeb Myfyrwyr UCL... Mae'n hen bryd i Aberystwyth wneud y peth egwyddorol a thalu'n deg.

## Y Datrysiad:

1. Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth ddechrau talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'w staff cynted â phosib!
2. Dylai Tîm y Swyddogion ddechrau trafodaethau gyda'r Brifysgol, â'r nod o ystyried talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i'r holl fyfyrwyr a gyflogir gan y Brifysgol.
3. Dylai Undeb y Myfyrwyr gyhoeddi'r ffaith y byddant yn talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, gan felly annog cyflogwyr eraill i ddilyn eu hesiampl.

4. Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth fod yn gyflogwr Cyflog Byw'r DU o fewn hanner blwyddyn, a chael ei achredu'n llawn gan y Sefydliad Cyflog Byw gynted â phosib wedyn. Dolen: www.livingwage.org.uk

*Cynigydd:* Alastair Wager

# OES UNRHYW UN YN GWNEUD UNRHYW BETH O GWBL A PHA MOR DLAWD YDYN NI?

## Y Sefyllfa:

1. Beth yw'r ffeithiau / beth yw'r sefyllfa bresennol? Cwestiwn da! Dyna ydy'r pwynt i raddau.
2. Cafwyd addewid o atebion o ran beth uffern mae'r cwmni digwyddiadau'n ei wneud, beth yw'r cytundeb a datrysiadau posib. Ni chafwyd atebion; roedd y cyfarfod diwethaf, lle roedd disgwyl i'r atebion hyn gael eu datgelu yn gwbl dawel ar y mater hwn, oedd yn dipyn o ddirgelwch.
3. Pam nad yw ein swyddogion wedi gwneud unrhyw beth (ac eithrio'r swyddog addysg)? Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad. Dim newid gwirioneddol. Pam ydym yn eu talu?
4. Akuma: pam na thrafodwyd hyn cyn ei arwyddo am ddwy flynedd? Beth yw'r cytundeb? Sut mae o fudd i ni?
5. Pam ymddiswyddodd ein Prif Weithredwr? Pa effaith mae ein dau ymddiriedolwr newydd wedi ei gael ar yr undeb?
6. Pam nad yw ein hadroddiad ariannol wedi cael ei ryddhau? Ydyn ni'n gwneud yn well eleni?

## Barn y Bobl:

1. Oherwydd mae cael ein cadw yn y tywyllwch yn hurt.

## Y Datrysiad:

1. Os nad oes modd iddynt ddarparu esgusodion rhesymol, yna cyflwynwch Bleidlais o Ddiffyg Hyder ynddynt.

*Cynigydd:* Alexander Tidy